



YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



Medi 2019

Annwyl Rieni,

Croeso yn ôl i bawb ar ôl gwyliau'r haf, a chroeso arbennig i griw o blant newydd a'u rhieni i'r ysgol.

Ar ddechrau blwyddyn ysgol fel hyn, hoffwn dynnu eich sylw at y materion pwysig yma ac hyderaf y caf eich cydweithrediad lawn arnynt:

Trefniadau boreau / Clwb Gofal Bore / Clwb Brecwast am Ddim

Mae'r ysgol yn parhau i gynnal **Clwb Gofal Bore rhwng 7.50am a 8.15am** gyda theuluoedd yn talu ffi o £1 y dydd y plentyn sydd i'w dalu ar-lein ar *School Gateway*. Os ydych yn dymuno manteisio ar y clwb brecwast am ddim, yna mae'r clwb yn cychwyn am **8.15am** a bydd brecwast yn cael ei weini hyd at **8.30am** – cofiwch, **ni** dderbynnir plant i'r clwb wedi'r amser yma. Os nad ydynt yn y Clwb Brecwast erbyn 8.30am dylech fod yn ymwybodol nad ydym yn derbyn cyfrifoldeb, nag yn goruchwyllo'r plant cyn 8.40am.

Mae staff yn cyfarch plant a rhieni/gwarchodwyr wrth giatiau'r iard. Cofiwch mai rhieni/gwarchodwyr y plant dosbarth Meithrin yn unig sy'n hebrwng eu plant at ddrws y dosbarth.

Lôn 'gollwng a mynd'

Ni ddylid rhwystro'r lôn yma, na pharcio arni ar unrhyw gyfrif. Mae'r lôn yma i ollwng/godi eich plentyn /plant a mynd. Ni ddylid dal traffig yn ôl wrth ollwng eich plentyn wrth y drws/giât – rhaid symud i ben draw y lôn i sicrhau lle i geir giwio tu ôl i chi. Dylid ceisio sicrhau llif traffig cyson ar y lôn yma.

Monitro Presenoldeb a Phrydlondeb

Rydym yn monitro presenoldeb a phrydlondeb yn ofalus iawn. Mae'r diwrnod ysgol yn dechrau am 8.50am ac fe ofynnaf yn garedig i chwi ofalu fod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. **Os yw plentyn yn absennol o'r ysgol gofynnwn yn garedig i chi ffonio'r ysgol cyn 9.00am – rhwng 8.30 a 9am os yn bosibl.** Bob hanner tymor byddwch yn derbyn adroddiad ar bresenoldeb eich plentyn. Mae ffurflenni cais am absenoldeb yn ystod tymor ysgol ar gael yn y dderbynfia.

Darllen / Cofnodion darllen

Eto eleni byddwn yn rhoi cryn bwyslais ar godi safonau darllen ar draws yr ysgol. Rydym yn gofyn i bob rhiant ddarllen gyda'u plentyn / eu hannog i ddarllen am o leiaf 10 munud bob nos a chofnodi yn eu Cofnod Darllen o leiaf unwaith yr wythnos. Mae hyn yn cynnwys pob plentyn hyd at flwyddyn 6.

Rydym yn gofyn am eich cydweithrediad i ofalu fod eich plentyn yn dod â bagiau darllen i'r ysgol **bob dydd** (Bl.1-6). Byddwn yn gofalu fod llyfrau darllen yn cael eu cludo adref yn ddyddiol. Dosbarth Derbyn unwaith yr wythnos. Bydd cyfnodau i ddarllen yn annibynnol ac fe fydd aelod o staff yn gwrandao ar eich plentyn yn darllen o leiaf unwaith yn ystod yr wythnos.

Taliadau Cinio / Taliadau eraill

Pris cinio eleni yw £2.50 y dydd sydd i'w dalu gan ddefnyddio ein system talu ar-lein drwy 'Schoolgateway' sydd yn eich galluogi i wneud taliadau yn yn uniongyrchol i'r ysgol gan ddefnyddio'ch cerdyn debyd neu gredyd. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu polisi "**Talu am ginio ysgol o flaen llaw**" clir o ran darparu a thalu am brydau ysgol. Diben hyn yw sicrhau fod rhieni neu ofalwyr, ag eithrio lle mae hawl i blentyn gael prydau ysgol am ddim, yn talu ymlaen llaw am brydau eu plant. Os ceir dyledion, bydd yn rhaid defnyddio arian o gyllideb yr ysgol i dalu amdanynt. Os bydd rhiant yn anghofio talu ymlaen llaw, gall yr ysgol roi lwfans dyled o ddeg pryd.

Cofiwch nad ydym bellach yn derbyn arian parod ac felly rydym yn gofyn i rieni i wneud pob taliad ar-lein (heblaw y siop ffrwythau). Os nad oes ganddoch gyfrif talu ar-lein, mae angen i chi gofrestru er mwyn creu cyfrif ar <https://porthysgol.ynysmon.gov.uk/> drwy glacio fel defnyddiwr newydd. Bydd angen i chi roi eich cyfeiriad e-bost a'r rhif symudol **sydd gennym wedi ei gofnodi ar eich cyfer yn yr ysgol**. Mae'r app 'School Gateway' hefyd yn fodd hwylus o wneud taliadau i'r ysgol o'ch ffôn neu dabled. Cyfeiriwch unrhyw ymholiad ynglyn â phrydau cinio, taliadau ayb i'n Swyddog Cefnogi Ysgol, Mrs Gillian Morris os gwelwch yn dda: 01248 422350 / swyddfa@parcybont.anglesey.sch.uk

Llefrith

Mae llefrith yn cael ei gynnig am ddim i blant y Cyfnod Sylfaen. Ni fydd llefrith yn cael ei ddarparu i'r Adran Iau.

'Bwyd Bach'

Mae'r siop ffrwythau yn agored cyn amser chwarae bob bore ac yn gwerthu amrywiaeth o ffrwythau am 20c yr un. Mae croeso i blant ddod â ffrwyth eu hunain. Nid ydym yn caniatâu i blant ddod â chreision, bisgedi, siocled, diod pop ayb ar gyfer bwyd bach.

Gwisg Ysgol

Taer erfyniaf arnoch i gydymffurfio â'n disgwyliadau parthed y wisg ysgol ac i roi/wnïo enw'r plentyn ar bob dilledyn yn gwbl glir, yn enwedig siwmperi a chardiganau.

Addysg Gorfforol

Cynhelir gwersi addysg gorfforol ar y dyddiau yma:

Meithrin/Derbyn – Dydd Iau

Bl.3 a 4 – Dydd Llun

Bl. 1 a 2 – Dydd Gwener

Bl. 5 a 6 – Dydd Gwener

Sicrhewch fod gan eich plentyn siort, crys-T ac esgidiau ymarfer ar gyfer pob gwers. Byddwn hefyd yn cynnal sesiynau 'Dal i Fynd' sef rhedeg/loncian am 15 munud dair gwaith yr wythnos er mwyn hyrwyddo ffitrwydd a lles pob un disgybl.

Cyfathrebu â rhieni

Byddwn yn anfon negeseuon testun i'ch ffôn symudol i'ch atgoffa o wahanol ddigwyddiadau ac i ddarparu gwybodaeth ar fyr rybudd. Rydym hefyd yn anfon llythyrau/gwybodaeth drwy ebost ac mae hyn yn arbed amser ac arian yn sylweddol. **Gwiriwch eich cyfrif ebost yn gyson am ohebiaethau gan yr ysgol os gwelwch yn dda.** Rydym yn anfon copi papur a chopi digidol o'r llythyr yma i bawb – gwiriwch eich bod wedi ei dderbyn drwy ebost. Gofynnwn i chi gysylltu â'r Swyddog Cefnogi Ysgol yn syth pan fydd eich manylion cyswllt yn newid – cyferiad, ebost, rhif ffôn symudol/ty.

Rydym yn rheadru gwybodaeth, dyddiadau a lluniau gwahanol weithgareddau ar ein gwefan ac ar Facebook a Twitter. Hoffwch ein tudalen Facebook 'Ysgol Parc y Bont' neu ein dilyn ar y trydar @YsgolParcyBont.

Gwybodaeth Feddygol / Deietegol eich plentyn

Eich cyfrifoldeb chi fel rhiant yw sicrhau ein bod â'r wybodaeth feddygol / deietegol gyfredol am eich plentyn. Os oes unrhyw newid i'w wybodaeth, yna mae'n hollbwysig eich bod yn ein hysbysu a bydd angen ail lenwi'r ffurflen berthnasol.

Os oes gan eich plentyn asthma ac yn ddibynnol ar bwmp, disgwyliwn fod disgyblion Bl.3-6 yn cadw y pwmp yn eu bagiau a'ch cyfrifoldeb chi yw sicrhau eu bod yn cael eu cludo i'r ysgol yn ddyddiol. Byddwn yn cadw pypmiau disgyblion Meithrin – Bl.2 yn yr ysgol ac mae'n bwysig eich bod yn darparu pwmp i ni.

Mae yma blentyn ag alergedd cnau difrifol, felly gofynnwn i chi sicrhau nad yw eich plentyn yn dod â chnau i'r ysgol fel byrbryd neu mewn pecyn bwyd.

Urdd

Cynhelir sesiynau Urdd pob p'nawn Llun tan 4.15 ym ar gyfer disgyblion Derbyn – Bl.6. Mi fydd y sesiwn gyntaf ar **ddydd Llun 7fed Hydref** gyda'r sesiwn olaf ddydd Llun 2il o Ragfyr. I fod yn rhan o weithgareddau'r Urdd; yn cynnwys eu holl weithgareddau a chystadleuthau chwaraeon; bydd rhaid ymaelodi â'r Urdd ar eu gwefan www.urdd.cymru/ymuno gan ofalu dewis Ysgol Parc y Bont ar y ffurflen.

Dyddiadau

Yn ystod yr wythnosau nesaf, byddwn yn anfon copi o galendr yr ysgol i chi gyda dyddiadau am y flwyddyn academiaidd hon ac fe fyddwn yn eich hysbysu o unrhyw weithgareddau, disgwyddiadau ac ymweliadau eraill y byddwn yn eu trefnu. Mae'n bwysig eich bod yn cadw copi o'r calendar a nodi unrhyw ddigwyddiadau ychwanegol arno fel yr ydym yn eich hysbysu. Mae'r calendr ar wefan yr ysgol yn cael ei ddiweddarau'n gyson ac rydym yn rhannu dyddiadau yn ein cylchlythyrau sydd yn cael eu hafnion drwy ebost.

Ymweliadau Addysgol

Darllenwch a chwblhewch y ffurflen atodol a'i dychwelyd yn ôl i ni cyn gynted â bo'r modd os gwelwch yn dda

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad ac fe edrychaf ymlaen am flwyddyn o gydweithio esmwyth â chwi.

Yn gywir,

Iwan Wyn Taylor
(Pennaeth)

YSGOL PARC Y BONT
Ymweliadau Addysgol - Caniatâd Rhiant/gofalwr
Ymweliadau Arferol



Fel rhan o brofiad dysgu eich plentyn, rydym yn darparu ystod eang o ymweliadau addysgol i gefnogi'r cwricwlwm. Darllenwch, cwblhewch a dychwelwch y ffurflen hon i roi eich caniatâd i'ch plentyn gymryd rhan mewn pob ymweliad arferol yn ystod eu cyfnod yn Ysgol Parc y Bont wedi ei nodi isod:

Mae Ymweliadau Arferol yn cynnwys :

Ymweliadau â chanolfannau/sefydliadau addysgol (yn cynnwys amgueddfeydd), safleoedd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ysgolion eraill, theatrau/sinema, capeli/eglwysi, canolfannau hamdden / neuaddau chwaraeon, tripiâu Nadolig a thripiâu haf, gwaith maes mewn pentrefi a threfi cyfagos, safleoedd hanesyddol (yn cynnwys cestyll), cefn gwlad arferol, ffermydd, traethau ac arfordiroedd

Enw'ch Plentyn: _____

Dyddiad Geni eich Plentyn: _____

Eich Manylion Cyswllt:

Rhif ffôn Cartref: _____ Gwaith: _____

Symudol: _____ E-bost: _____

Cyfeiriad: _____

Manylion eraill cysylltu mewn Argyfwng

Enw: _____ Rhif ffôn: _____

Cyfeiriad: _____

Gwybodaeth Feddygol:

Manylion ynghylch unrhyw gyflwr meddygol, corfforol neu seicolegol a all effeithio ar eich plentyn yn ystod ymweliad addysgol arferol:

Manylion unrhyw foddion y dylai eich plentyn eu cymryd yn ystod ymweliad:

A yw eich plentyn yn rhoi'r moddion uchod ei hun? **YDYW / NAC YDYW**

Cyfrifoldeb y rhiant yw sicrhau bod eich plentyn yn mynd a'r moddion y dylent fynd ag ef gyda hwy, ar yr ymweliad. O dan rai amgylchiadau, gall bydd methiant i fynd â'r moddion priodol gyda hwy yn golygu na fydd y plentyn yn cael mynd ar y daith. Mae hyn yn gyfan gwbl er diogelwch eich plentyn.

Anghenion Dietegol:

A oes gan eich plentyn unrhyw anghenion dietegol?

OES / NAC OES

A oes gennych unrhyw wybodaeth arall y gallai fod yn bwysig inni wybod amdano?

Meddyg Teulu

Enw: _____ Rhif ffôn: _____

Cyfeiriad: _____

Deallaf:

- y cynhelir ymweliadau arferol fel arfer o fewn oriau gwaith yr ysgol. Yn achlysurol, gallant ymestyn tu hwnt i'r amser hwn, ac mewn achos o'r fath, byddaf yn cael rhybudd digonol sy'n fy ngalluogi i wneud trefniadau priodol i fy mhlentyn ddychwelyd adref, yn unol â pholisi ymweliadau'r ysgol
- gofynnir am fy nghaniatâd ar gyfer unrhyw ymweliadau anarferol ar wahân i'r rheini a restrir
- cymerir pob gofal rhesymol o fy mhlentyn yn ystod yr ymweliad; yn unol â pholisi ymweliadau ysgol.
- bydd yn ddyletswydd ar fy mhlentyn ddilyn pob cyfarwyddyd a roddir a dilyn pob rheol a rheoliadau sydd yn gysylltiedig â'r ymweliad a bydd yn ddarostyngedig i'r holl weithdrefnau arferol disgyblaeth ysgol yn ystod yr ymweliad; yn unol â chod ymddygiad yr ysgol.
- Rhaid i mi hysbysu'r ysgol ynghylch unrhyw newid yng nghyflwr meddygol, corfforol neu seicolegol fy mhlentyn a all effeithio ar fy mhlentyn yn ystod ymweliad addysgol arferol.
- Mae fy mhlentyn wedi ei yswirio gan yswiriant atebolrwydd cyhoeddus trydedd plaid y Cyngor Sir o ran unrhyw hawliad a gyfyd o ddamwain sy'n cael ei hachosi gan nam ar dir yr ysgol neu offer neu oherwydd esgeulustod gan y Cyngor neu un o'i weithwyr. Deallaf nad yw'r polisi yswiriant hwn yn cynnwys yswiriant am ddamwain bersonol neu eiddo personol, ar gyfer fy mhlentyn ac efallai y dymunaf drefnu hynny'n breifat.
- Rwyf yn cytuno i hysbysu'r ysgol o unrhyw newid yn fy manylion, neu yn fy manylion cyswllt/cartref fy mhlentyn fel y gall yr ysgol gysylltu â mi mewn argyfwng.

Enw llawn rhiant/gofalwr: (printiwch os gweler yn dda)

Arwyddwyd: _____

Dyddiad: _____

